General Osteopathic Council

Cynllun Corfforaethol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

2010–2013

Dyletswydd statudol

Dyletswydd statudol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yw 'datblygu a rheoleiddio'r proffesiwn osteopathig' i sicrhau diogelwch y cyhoedd. I'w helpu i wneud ei ddyletswydd, mae'r GOsC yn cydweithio'n agos â'r proffesiwn osteopathig, gyda chleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill. Ei nod yw nodi'r meysydd hynny lle mae perygl i gleifion a'r cyhoedd ac i fynd i'r afael â'r peryglon hynny gyda rheolau a strategaethau proffesiynol sydd wedi'u targedu'n dda ac sydd â'r nod o hyrwyddo'r safonau uchaf posibl o ymarfer osteopathig.

Gwerthoedd sy'n sail i waith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GosC)

Mae'r GOsC wedi ymrwymo i gynnal ei holl weithgarwch rheoleiddio a chyflogi ar sail y gwerthoedd canlynol:

Cymesur

Byddwn yn sicrhau na fydd y baich rheoleiddio yn fwy na sydd ei angen i gyflawni ein swyddogaeth statudol o reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopathig er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Atebol

Byddwn yn adeiladu ymddiriedaeth trwy fod yn onest ac atebol i'n holl randdeiliaid. Byddwn yn egluro sut y bu i ni gymryd eu safbwyntiau i ystyriaeth wrth ddatblygu polisi ac wrth wella'n perfformiad. Byddwn yn derbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau ein gweithredoedd.

Cyson

Byddwn yn gyson wrth weithredu ein polisïau a'n dulliau gweithredu er mwyn sicrhau tegwch.

Tryloyw

Byddwn yn cyhoeddi ein gweithredoedd a'n penderfyniadau, lle bynnag bo hynny'n bosibl, gan sicrhau fod y wybodaeth yn eglur ac yn hygyrch.

Targedu

Byddwn yn nodi a chanolbwyntio ein hadnoddau ar y meysydd hynny lle mae perygl i ddiogelwch y cyhoedd a lle mae modd cyflawni'r mwyaf o ran gwella'r safonau gofal iechyd sy'n cael eu darparu.

Ymatebol

Byddwn yn ymateb i anghenion cleifion a'r cyhoedd ac i bryderon rhesymol yr holl randdeiliaid eraill, gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Byddwn yn ystyried sylwadau ein rhanddeiliaid wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni swyddogaethau rheoleiddio.

Gwelliant parhaus

Byddwn yn meithrin diwylliant o welliant parhaus, gan gymryd camau i feincnodi'n perfformiad o dro i dro, a gosod targedau er mwyn sicrhau arfer gorau, yn ein holl weithgareddau rheoleiddio a chyflogi.

Rhagweld

Byddwn yn monitro tueddiadau rheoleiddio gofal iechyd, mewn ymarfer osteopathig, ac mewn addysg a hyfforddiant, fel y byddwn yn barod i ymateb yn effeithiol i newid ac i helpu'r proffesiwn i ymateb yn unol â hynny.

Cynhwysol

Byddwn yn ymgymryd â'n gweithgareddau mewn modd cynhwysol, gan ofalu ein bod yn cynnwys ein rhanddeiliaid yn ein holl weithgareddau mewn modd ystyrlon. Bydd ein nod o hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a diddymu gwahaniaethu annheg yn llywio'n ein holl weithgareddau fel rheoleiddiwr a chyflogwr.

Effeithlonrwydd a gwerth am arian

Byddwn yn defnyddio'n hadnoddau'n effeithlon, gan chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon a hynny heb gyfaddawdu ar safon ein gwaith.

Cynllunio corfforaethol 2010 – 2013
Amcanion Strategol

Llwyddiant y pum amcan strategol hwn fydd yn pennu gwaith y GOsC dros dair blynedd y cylch cynllunio o 2010 - 2013.

1 **Sicrhau y caiff cleifion a'r cyhoedd eu hamddiffyn trwy reoleiddio effeithiol wedi'i dargedu**

2 **Hyrwyddo safonau uchel o ofal iechyd osteopathig**

3 **Cynnal a gwella cywirdeb y Gofrestr**

4 **Ymgysylltu'n effeithiol gydag osteopathiaid, cleifion a'r cyhoedd yn ehangach, addysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod sail i'n polisïau a'n prosesau**

5 **Cadw golwg ar ein gweithgarwch a'n defnydd o adnoddau, gan wneud newidiadau lle bo angen i sicrhau'r perfformiad gorau posibl a hynny mor gost effeithlon â phosibl**

Yn y cynllun hwn, ceir disgrifiad o'r prosiectau unigol yr ymgymerir â hwy dan pob amcan strategol gyda manylion amserlen i orffen y gwaith a'r adnoddau sydd eu hangen. Cyhoeddir Cynllun Busnes manylach gyda chostau llawn, yn ystod pob blwyddyn o'r cylch cynllunio.

ON. Mae'r holl gyfeiriadau at y Cyngor yn y ddogfen hon yn cyfeirio at y Bwrdd, ac nid at y GosC fel corff corfforaethol

1 Sicrhau y caiff cleifion a'r cyhoedd eu hamddiffyn trwy reoleiddio effeithiol wedi'i dargedu

1.1 Prosesau addasrwydd i ymarfer

Sicrhau bod prosesau addasrwydd i ymarfer y GosC yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n cynnig dull teg ac effeithiol o archwilio a phenderfynu ar gwynion am osteopathiaid.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Rheoli'r llwyth achosion i ymdrin ag achosion mor gyflym â phosibl, i geisio sicrhau tegwch a diwallu gofynion statudol. Monitro anghenion hyfforddi panelwyr Addasrwydd i Ymarfer, staff ac aseswyr cyfreithiol a darparu hyfforddiant fel bo angen;
- Trefnu cyfarfodydd yn ôl y galw i sicrhau bod gan banelwyr a chadeiryddion Addasrwydd i Ymarfer gyfle llawn i adolygu dulliau gweithredu a chytuno i unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r dulliau gweithredu;
- Sicrhau y caiff pwyntiau dysgu achosion a gyhoeddir gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE) eu cyfathrebu'n effeithiol;
- Gweithredu newidiadau angenrheidiol i ddulliau gweithredu yn sgil y CHRE yn defnyddio pwerau sy'n ymwneud ag archwilio camau ymchwilio achosion, gan herio canlyniadau achosion a chynnal yr adolygiad o berfformiad blynyddol;
- Monitro canfyddiadau ymchwil i safbwyntiau achwynwyr a'r rhai sy'n cofrestru am brosesau addasrwydd i ymarfer a gwneud unrhyw addasiadau yn ôl y galw;
- Sicrhau bod y Cyngor yn derbyn adroddiadau manwl ac amserol ar brosesau addasrwydd i ymarfer er mwyn ei alluogi i ymateb yn briodol i unrhyw faterion sydd angen gweithredu arnynt, boed yn strategol neu'n weithredol;
- Monitro perfformiad aseswyr cyfreithiol Addasrwydd i Ymarfer ac argymell newidiadau angenrheidiol.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

Gweithgareddau ar gyfer blwyddyn un a:

- Cynnal astudiaeth ddichonolrwydd o'r broses o drosglwyddo achosion penderfynu ar addasrwydd i ymarfer i Swyddfa Dyfarnwr y Proffesiynau Iechyd (OHPA).

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

Gweithgareddau ar gyfer blwyddyn un ac:

- Adrodd i'r Cyngor ar ddichonolrwydd trosglwyddo achosion penderfynu ar addasrwydd i ymarfer i'r OHPA a gwneud argymhellion am bolisi sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad.

1.2 Mesurau i amddiffyn cleifion agored i niwed – Gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol y DU a chofrestru â'r cynllun Fetio a Gwahardd

Datblygu a gweithredu strategaeth GOsC sy'n sicrhau y caiff grwpiau sy'n agored i niwed eu hamddiffyn trwy bolisi cynhwysfawr ar wiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol y DU (CRB), ac integreiddio gofynion fetio a gwahardd i ddulliau cofrestru'r GOsC.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Datblygu rhaglen gyfathrebu i sicrhau bod cofrestrwyr yn llwyr ymwybodol o ofynion cofrestru cynlluniau fetio a gwahardd y DU. Mae cynllun Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael ei weithredu gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) i Grwpiau Amddiffyn Pobl Agored i Niwed : cynllun Fetio a Gwahardd yr Alban;

- Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r ISA a'r corff cyfatebol yn yr Alban o ran cyfnewid gwybodaeth. Datblygu polisi ar ddatgelu gwybodaeth a phrosesau cyfeirio;
- Newid y broses gofrestru gyfredol i hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth cofrestru'r ISA gan gofrestrwyr;
- Cofrestru diddordeb gyda'r ISA i hwyluso rhannu gwybodaeth fetio ynglŷn â osteopathiaid sydd wedi cofrestru gyda'r ISA;
- Archwilio'r ymarferoldeb polisi cofrestru gorfodol gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol i bob osteopath a gwiriadau gorfodol gyda'r CRB i bawb sy'n cofrestru;
- Nodi prosesau ac amserlenni ar gyfer cofrestru gyda'r Grwpiau Amddiffyn Pobl Agored i Niwed: cynllun Fetio a Gwahardd yr Alban ac ymgymryd â'r camau angenrheidiol i'w weithredu, fel y rhai hynny a amlinellwyd i'r ISA.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Os yw cofrestru gorfodol gyda'r ISA yn angenrheidiol, datblygu ac ymgynghori ar bolisi arfaethedig, a chynllunio a gweithredu rhaglen gyfathrebu gysylltiedig;
- Addasu'r broses gofrestru i gasglu gwybodaeth gofrestru'r ISA a'r CRB gan gofrestrwyr wrth iddynt ailgofrestru'n flynyddol;
- Datblygu dull gyda'r ISA o dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am osteopathiaid sydd wedi cofrestru gyda'r Awdurdod.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Os oes angen, gweithredu polisi cofrestru gorfodol i bawb sy'n cofrestru gyda'r ISA;
- Gwerthuso polisi cyfnewid gwybodaeth yr ISA - GOsC ac addasu lle mae angen hynny;
- Gwerthuso'r polisi cyfnewid gwybodaeth rhwng y GOsC a Grwpiau Amddiffyn Pobl Agored i Niwed: cynllun Fetio a Gwahardd yr Alban.

1.3 Adolygu'r pontio i ymarfer osteopathig

Adolygu sut mae myfyrwyr yn pontio i ymarfer fel osteopathiaid newydd gymhwyso i bennu a yw rhagor o ymyriadau rheoleiddio yn angenrheidiol i ddiogelu cleifion a chefnogi osteopathiaid newydd gymhwyso wrth iddynt gychwyn ymarfer.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Ymgynghori â rhanddeiliaid ar barodrwydd osteopathiaid newydd gymhwyso i ymarfer;
- Adolygu'r data sydd ar gael i weld a yw osteopathiaid newydd gymhwyso yn gategori risg uchel.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Comisiynu ymchwil i ganfod pa mor barod yw myfyrwyr blwyddyn olaf ac osteopathiaid newydd gymhwyso ar gyfer ymarfer annibynnol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Asesu hyd a lled yr angen am adolygu'r broses o bontio i ymarfer gan gynnwys ymyriadau rheoleiddio posibl.

1.4 Adolygu ymarfer uwch ac arbenigol a'r hyfforddiant ôl-radd sydd ar gael i osteopathiaid

Archwilio natur ymarfer osteopathig, yn cynnwys cyfran y proffesiwn sy'n ymarfer mewn meysydd penodol, a nifer yr osteopathiaid sy'n ymgymryd â hyfforddiant ôl-radd. Gall y gwaith paratoi awgrymu'r angen am fwy o safonau a chanllawiau mewn meysydd hyfforddiant ymarfer osteopathig uwch. Dylai'r gwaith hwn gael ei lywio gan yr adolygiad o gynnwys cwricwlwm cyn-gofrestru (sy'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol), ac ymchwil o ffynonellau allanol yn cynnwys y CHRE, rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, Sefydliadau Addysgol Osteopathig (OEIs) a'r Gymdeithas Osteopathig Brydeinig (BOA).

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

> Casglu gwybodaeth am ymarfer uwch ac arbenigol a'r nifer sy'n ymgymryd â hyfforddiant ôl-radd a ffurfiau eraill o hyfforddiant ôl-gofrestru.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

> Cynnal arolwg o'r proffesiwn a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ymarfer go iawn a'r hyn y mae'n ei awgrymu o ran ymarfer uwch ac arbenigol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

> Ar sail canlyniadau'r arolwg a chanlyniad yr adolygiad o gynnwys y cwricwlwm cyn-gofrestru, asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag ymarfer uwch ac arbenigol a phennu'r safonau ychwanegol a'r canllawiau pellach ar hyfforddiant a all fod eu hangen, os o gwbl, i sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn. Os cynigir camau pellach, paratoi i ymgynghori â'r proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol.

1.5 Cwblhau adolygiad o'r Cod Ymarfer a darparu cyfarwyddyd ategol i osteopathiaid ar y Cod ac ar foeseg

Bydd y Cod Ymarfer diwygiedig yn pennu safonau ymddygiad, yn cynnwys cyngor ar sut i gyflawni'r safonau hynny (yn dilyn gofynion adran 19 o Ddeddf Osteopathiaid 1993). Yn ogystal, cynhyrchir canllawiau fel bo angen i ategu cynnwys y Cod ac i ymdrin â materion moeseg sy'n codi mewn ymarfer osteopathig yn fwy manwl e.e. caniatâd, cyfrinachedd, datgeliadau heb ganiatâd, chwythu'r chwiban a deddfwriaeth cydraddoldeb.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

> Cyhoeddi'r Cod Ymarfer diwygiedig a nodi'r meysydd lle mae tystiolaeth ategol yn ddymunol. Llunio cynllun datblygu a chyhoeddi'r canllawiau hynny.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

> Rhoi cynllun ar waith i ddatblygu a chyhoeddi canllawiau a'u hadolygu, gan gymryd adborth y proffesiwn i ystyriaeth, yn ogystal ag ystadegau addasrwydd i ymarfer, a datblygiadau mewn rheoleiddio gofal iechyd a chyfraith achosion berthnasol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

> Cynnal arolwg o'r proffesiwn i asesu faint o'r Cod Ymarfer a'r canllawiau y mae'r osteopathiaid yn ei ddefnyddio;

> Adolygu canllawiau ategol a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol; diwygio, os oes angen, yng ngoleuni newidiadau i'r gyfraith ac arferion gorau, a chyhoeddi canllawiau ar bynciau ychwanegol fel bo angen.

2 Hyrwyddo safonau uchel o ofal iechyd osteopathig

2.1 Strategaeth ymchwil y GOsC

Datblygu strategaeth ymchwil briodol i lywio ac fel sail i ddatblygu polisi; canfod faint o swyddogaeth sydd gan y GOsC o ran cefnogi ymchwil sydd â'r nod o ehangu sylfaen tystiolaeth osteopathi; ac i lywio datblygiad gwasanaethau.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cynnal adolygiad o anghenion ymchwil i lywio datblygiad a llwyddiant cynlluniau strategol. Dylai hyn gymryd i ystyriaeth ymchwil sydd ar y gweill, yn cynnwys ariannu ymchwil trwy Gyngor Cenedlaethol Ymchwil Osteopathig (NCOR), ac ymchwil o adnoddau allanol yn cynnwys rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, y CHRE, yr Adran Iechyd, y BOA ac OEIs eraill;
- Adolygu'r berthynas â'r NCOR yn cynnwys yr ymrwymiad hyd yn hyn i ariannu seilwaith yr NCOR, a phennu polisi'r dyfodol;
- Datblygu strategaeth ymchwil a pharatoi adroddiad i'r Cyngor;
- Datblygu cynllun i weithredu'r strategaeth gydol oes y cynllun corfforaethol a chychwyn gweithredu.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Parhau i weithredu strategaeth ymchwil yn unol â'r cynllun a chadw golwg ar unrhyw anghenion ymchwil pellach.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Parhau i weithredu strategaeth ymchwil yn unol â'r cynllun, a chadw golwg ar unrhyw anghenion ymchwil pellach.

2.2 Hyrwyddo rheoleiddio osteopathi yn rhyngwladol

Gweithio o fewn a thu allan i Ewrop i hyrwyddo safonau uchel o ofal osteopathi yn rhyngwladol trwy reoleiddio. Y nod yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn mewn byd lle mae cleifion a gweithwyr proffesiynol yn fwyfwy symudol.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Archwilio ymarferoldeb datblygu safonau osteopathig Ewropeaidd trwy weithio gyda'r Pwyllgor Safoni Ewropeaidd (CEN);
- Cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i'r posibilrwydd o gyfuno Ffederasiwn Osteopathiaid Ewrop (EFO) a'r Fforwm Rheoleiddio yn Ewrop (FORE) i wella effeithiolrwydd hyrwyddo rheoleiddio osteopathi trwy Ewrop;
- Gwneud cynnydd gyda'r trafodaethau ag awdurdodau rheoleiddio Awstralia a Seland Newydd ar drefniadau cyfatebol addas i hwyluso trosglwyddo graddedigion rhwng Awstralia, Seland Newydd a'r DU tra'n amddiffyn y cyhoedd rhag trosglwyddiadau anaddas neu anniogel;
- Cyfrannu at adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar gydnabod cymwysterau (2005/36/EC);
- Cymryd rhan lawn yn y Gynghrair Osteopathig Ryngwladol (OIA) gan ddefnyddio lle'r GOsC ar fwrdd yr OIA i hyrwyddo safonau uchel o osteopathi'n fyd-eang.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Yn amodol ar ganlyniad yr astudiaeth ddichonolrwydd ar safonau Ewropeaidd, llunio cynllun prosiect ar swyddogaeth y GOsC i hwyluso'r gwaith dan sylw;

- Yn amodol ar ganlyniad astudiaeth uno'r EFO/FORE, llunio cynllun i greu corff unigol;
- Gwneud cynnydd gyda'r trafodaethau ag awdurdodau rheoleiddio osteopathi Awstralia a Seland Newydd ar drefniadau cyfatebol addas, gyda golwg ar weithredu trefniadau cyfatebol o fis Ionawr 2012;
- Cymryd rhan lawn yn yr OIA gan ddefnyddio lle'r GOsC ar fwrdd yr OIA i hyrwyddo safonau uchel o osteopathi'n fyd-eang.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Cynnal adolygiad o swyddogaeth y GOsC o fewn FORE, neu, os yw'r uno â EFO yn mynd rhagddo, o fewn corff unigol yn Ewrop;
- Gweithredu trefniadau cyfatebol a gytunwyd gydag awdurdodau rheoleiddio Awstralia a Seland Newydd;
- Cymryd rhan lawn yn yr OIA, gan ddefnyddio lle'r GOsC ar fwrdd yr OIA i hyrwyddo safonau uchel o osteopathi'n fyd-eang.

2.3 Cynllun ail-ddilysu osteopathiaid

Cwblhau'r cynllun ail-ddilysu, a threfnu dulliau gweithredu mewnol a phriodol i ymgymryd â chynlluniau peilot ail-ddilysu. Cynnal a gwerthuso'r cynlluniau peilot, a gwneud cynigion ar lansio ail-ddilysu yn 2012.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Sefydlu strwythur llywodraethu addas i oruchwylio gwaith datblygu ac i ymgymryd â chynllun peilot llawn;
- Cwblhau safonau, canllawiau, asesiad a thystiolaeth ar gyfer y cynlluniau peilot ail-ddilysu, gan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion a gafwyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2009;
- Cwblhau'r dull gweithredu a'r model ar gyfer cynlluniau peilot ail-ddilysu yn cynnwys sicrhau ansawdd;
- Cwblhau prosesau adferiad ar gyfer ail-ddilysu;
- Ymgymryd ag asesiad effaith ffurfiol ar gyfer adolygiad yr Adran Iechyd ar effaith rheoleiddio i ail-ddilysu ar gyrff rheoleiddio gofal iechyd;
- Ymgymryd ag asesiadau effaith mewnol a'u diweddaru'n barhaus i sicrhau nad yw'r cynllun ail-ddilysu'n cael effaith niweidiol ar grwpiau lleiafrifol;
- Nodi a chomisiynu ymchwil i gefnogi anghenion yr ymarferwyr sy'n ymgymryd ag ail-ddilysu;
- Nodi (law yn llaw â phedair adran Iechyd y DU) amserlen ddeddfwriaethol arfaethedig ar gyfer ail-ddilysu;
- Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda'r proffesiwn, OEIs, cleifion a'r cyhoedd, a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas ag ail-ddilysu;
- Adolygu a phennu materion polisi sydd yn yr arfaeth gan gynnwys asesu osteopathiaid sy'n dychwelyd i ymarfer, cofrestru'r rhai hynny sy'n ymarfer y tu allan i'r DU neu sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU, amserlen ar gyfer y broses ymgeisio i raddedigion a dulliau gweithredu addasrwydd i ymarfer.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Cynnal cynlluniau peilot yn unol â manyleb y peilot;
- Cyhoeddi gwerthusiad o'r peilot a dadansoddiad cost a budd;
- Adolygu a diweddaru'r asesiad effaith yn dilyn y peilot;
- Sicrhau yr ymgysylltir â'r proffesiwn, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gyson ac effeithiol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Cwblhau'r cynllun gweithredu ar gyfer ail-ddilysu;
- Drafftio rheolau i gefnogi gweithredu ail-ddilysu;
- Adolygu a, lle bo angen, diweddaru'r asesiad effaith;
- Cynhyrchu adroddiad manwl ar gostau a manteision ail-ddilysu;
- Sicrhau yr ymgysylltir â'r proffesiwn a'r cyhoedd yn gyson ac effeithiol.

2.4 Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus

Adolygu'r cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn ac yn ategu'r cynllun ail-ddilysu newydd. Adolygu'r angen am sicrhau ansawdd y CPD a sut fydd modd cyflawni hyn.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Adolygu dull gweithredu'r Fframwaith CPD cyfredol (yn fewnol ac yn allanol) a datblygu opsiynau i ddiwygio'r cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd;
- Drafftio cynigion i adolygu'r cynllun ac i ymgynghori.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Gwerthuso canlyniad yr ymgynghoriad a chyhoeddi adroddiad;
- Llunio cynllun i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad;
- Datblygu papur sefyllfa ar sicrhau ansawdd CPD.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Rhoi newidiadau i'r cynllun CPD ar waith law yn llaw â datblygu'r cynllun ail-ddilysu.

2.5 Prosesau Cymwysterau Cydnabyddedig a Sicrhau Ansawdd

Sicrhau bod y broses Cymwysterau Cydnabyddedig (RQ) yn parhau i roi tystiolaeth ddibynadwy bod myfyrwyr osteopathig yn cyrraedd y safon ofynnol o fedrusrwydd angenrheidiol pan ddyfernir y cymhwyster iddynt.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Ymgymryd â thri adolygiad RQ newydd i bennu a yw ceisiadau am gymwysterau newydd yn bodloni safonau'r GOsC ac a ddylent ddod yn RQs;
- Ymgymryd ag un adolygiad adnewyddu RQ i bennu a yw RQ sydd ar fin dod i ben yn dal i fodloni safonau'r GOsC;
- Ymgymryd â phedwar adolygiad i bennu a gydymffurfiwyd ag amodau'r RQs presennol o fewn y cyfnod perthnasol;
- Dadansoddi Adroddiadau Blynyddol 2009/10 a gyflwynwyd gan OEIs a chreu adroddiad trosolwg ac adborth unigol i bob un o'r OEIs;
- Ymgymryd ag ymarfer gwerthuso gan gymryd adborth y tîm adolygu a staff OEI i ystyriaeth ar sut mae modd gwella'r broses. Bydd yr adroddiad gwerthuso a'r argymhellion yn cael eu hystyried fel rhan o'n hymrwymiad cyson i wella'n barhaus;
- Sicrhau bod OEIs ac ymwelwyr adolygu RQ yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r broses adolygu RQ;
- Adolygu manyleb y person a swydd ddisgrifiad yr ymwelwyr adolygu a phennu a oes angen gwneud rhagor o recriwtio i ychwanegu at y gronfa ymwelwyr adolygu bresennol;
- Darparu hyfforddiant blynyddol i ymwelwyr adolygu.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

Bydd gweithgareddau Blwyddyn 2 yn adlewyrchu gweithgareddau blwyddyn 1 gyda'r eithriadau canlynol:

- Un adolygiad cydnabyddiaeth cychwynnol a fwriedir;
- Nid ydym yn disgwyl ymgymryd â rhagor o friffio sector yn ystod 2011/2012;
- Nid ydym yn disgwyl ymgymryd ag adolygiad pellach na recriwtio aseswyr adolygu os gwneir hyn yn ystod 2010/2011.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

Bydd gweithgareddau Blwyddyn 3 yn adlewyrchu gweithgareddau Blwyddyn 1 gyda'r eithriadau canlynol:

- Un adolygiad RQ a fwriedir;
- Dau adolygiad adnewyddu RQ i bennu a yw RQ sydd ar fin dod i ben yn dal i fodloni'r safonau;
- Nid ydym yn disgwyl ymgymryd ag adolygiad pellach na recriwtio ymwelwyr adolygu os gwneir hyn yn ystod 2010/2011.

2.6 Adolygu Sicrhau Ansawdd addysg a hyfforddiant

Adolygu prosesau Sicrhau Ansawdd (QA) i sicrhau eu bod yn ateb y gofyn.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Datblygu papur polisi Sicrhau Ansawdd sy'n nodi pwrpas a meddylfryd y GOsC yng nghyswllt y broses Sicrhau Ansawdd;
- Adolygu a chyhoeddi Llawlyfr ar gyfer adolygiad y GOsC o gyrsiau osteopathig a darparwyr y cyrsiau, i adlewyrchu'r broses weithredu'n gywir;
- Nodi pa gamau symleiddio pellach sydd eu hangen a'u gweithredu, e.e. ystyried a ddylid addasu Dogfen Hunan Werthuso'r (SED) OEIs i sicrhau bod y wybodaeth am adolygiadau eraill yn cael ei chofnodi a'i hystyried wrth drefnu adolygiadau;
- Nodi pa waith mapio safonau pellach y dylid ei ystyried yn adolygiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i wella cysondeb;
- Cynnig prosesau cymedroli addas i helpu i safoni adroddiadau, yn cynnwys:
  i. Diwygio manyleb ymwelwyr adolygu gan nodi'r wybodaeth a'r sgiliau cyfredol sydd i'w disgwyl gan ymwelwyr.
  ii. Nodi i ba raddau y dylid diwygio'r gronfa ymwelwyr adolygu.
  iii. Hyfforddiant pellach i ymwelwyr adolygu am safonau a dulliau triongliant.
  iv. Hyfforddiant pellach i ymwelwyr adolygu am ystyr arferion da 'digonol', a materion a ddylai fod yn destun amodau ac argymhellion.
- Cynnig proses gytuno ffurfiol pan fo amodau wedi'u cyflawni fel bod y wybodaeth a gyhoeddir ar y wefan yn gyfredol;
- Gweithredu Cylch Adroddiad Blynyddol mwy effeithiol ar gyfer 2009/10.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Monitro effeithiolrwydd y broses Sicrhau Ansawdd, gan weithredu ar adborth gan y rhai hynny sy'n rhan ohoni;
- Amlinellu cwmpas ar gyfer adolygiad sylweddol o'r broses Sicrhau Ansawdd i archwilio'r potensial i achredu darparwyr, yn hytrach na chymeradwyo cyrsiau hyfforddi unigol, a chynnwys adolygiad o'r trefniadau ariannu dan y broses gyfredol;
- Cynnal ymgynghoriad rhagarweiniol ar natur yr adolygiad gyda'r OEIs a rhanddeiliaid allweddol eraill;
- Cytuno ar amserlen ar gyfer y diwygiadau deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i hwyluso newid trefn achredu darparwyr a throsglwyddo'r costau i'r darparwr.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Monitro effeithiolrwydd prosesau Sicrhau Ansawdd presennol;
- Datblygu papur polisi ar ddulliau amgen i'r drefn gyfredol o Sicrhau Ansawdd, yn cynnwys dulliau amgen i'r trefniadau ariannu Sicrhau Ansawdd cyfredol;

- Ymgynghori'n eang gydag OEIs a rhanddeiliaid allweddol eraill ar unrhyw newidiadau i'r broses Sicrhau Ansawdd;
- Gwerthuso canlyniad yr ymgynghoriad a chyhoeddi adroddiad. Llunio cynllun i weithredu unrhyw newidiadau a gynigwyd.

2.7 Safonau Ymarfer Osteopathig

Cyhoeddi Safon Medrusrwydd ddiwygiedig (a enwyd wedyn yn Safonau Ymarfer Osteopathig), sydd ei hangen ar gyfer ymarfer osteopathi'n gymwys a diogel, sy'n integreiddio a chefnogi'r safonau a'r canllawiau yn y Cod Ymarfer diwygiedig. Cytuno ac ymgymryd â strategaeth i sicrhau bod y safonau'n cael eu gweithredu yn yr OEIs a bod osteopathiaid sydd eisoes yn ymarfer yn eu dilyn.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cwblhau dadansoddiad ymgynghori 2009 ar Safon Medrusrwydd ddiwygiedig;
- Datblygu drafft newydd o'r Safon Medrusrwydd (Safonau Ymarfer Osteopathig) sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymarfer;
- Cyhoeddi Safonau Ymarfer Osteopathig diwygiedig law yn llaw â'r Cod Ymarfer diwygiedig.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Datblygu ac ymgymryd â strategaeth weithredu i sicrhau bod pob osteopath yn ymwybodol o, ac yn dechrau ymarfer yn unol â'r Safonau Ymarfer Osteopathig a'r Cod Ymarfer.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Datblygu cynllun i werthuso effeithiolrwydd y Safonau Ymarfer Osteopathig diwygiedig a'r Cod Ymarfer.

2.8 Adolygu cynnwys y cwricwlwm cyn-gofrestru

Ystyried yr angen i gynnwys cwricwlwm craidd i ategu'r Safonau Ymarfer Osteopathig. Gallai dogfen gynnwys cwricwlwm craidd nodi'r meysydd pwnc ar gyfer ymarfer, ond ni fyddai'n nodi dulliau darparu'r cwricwlwm. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn ystyried yr angen i ddatblygu safonau pellach ar sail systemau a ddylai gael eu diwallu gan OEIs sy'n cyflenwi RQs.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cwmpasu a chytuno ar gylch gwaith adolygiad cynnwys y cwricwlwm a'i berthynas â meysydd perthnasol eraill o waith e.e. cwmpas ymarfer.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Cynnig pynciau craidd y dylid cyfeirio atynt yng nghynnwys cwricwlwm craidd o ddadansoddi cynnwys y trafodaethau ymarfer, adborth gan OEIs eraill, ac ymchwil gefndir arall;
- Paratoi ac ymgynghori ar y cysyniad o ddogfen cynnwys y cwricwlwm cyn-gofrestru.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Dadansoddi'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r canfyddiadau;
- Datblygu cynllun i gyfathrebu cynigion pellach am ddogfen cwricwlwm craidd cyn-gofrestru;
- Adolygu'r angen i adlewyrchu neu ddiwygio unrhyw ddogfennau cysylltiedig, er enghraifft, Safonau Ymarfer Osteopathig ac unrhyw waith a wnaed ar bontio i ymarfer.

3 Cynnal a gwella cywirdeb y Gofrestr

3.1 Prosesau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr – cymorth a chanllawiau i sefydliadau addysgol osteopathig (OEIs)

Nodi ffyrdd y gall y GOsC ddarparu cefnogaeth i OEIs i wneud penderfyniadau teg a chyson am addasrwydd i ymarfer, i sicrhau mai dim ond y myfyrwyr hynny sy'n addas i ymarfer sy'n cael RQ.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Datblygu papur cwmpasu sy'n nodi'r materion i'w trafod gyda'r sefydliadau OEIs;
- Cynnal rhaglen o gyfarfodydd gyda'r OEIs i archwilio materion sy'n ymwneud ag addasrwydd myfyrwyr i ymarfer.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Cyflogi ymgynghorydd cydraddoldeb ac amrywiaeth i gynghori ar faterion addasrwydd myfyrwyr i ymarfer;
- Datblygu detholiad o atebion posibl i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn cynnwys canllawiau, cofrestru myfyrwyr, paneli addasrwydd i ymarfer wrth gofrestru a dulliau cyfeirio at adnoddau eraill;
- Cyhoeddi cynnig ar ateb ffafriol (bydd yn rhaid adolygu costau ac amseriad yn ystod y cam hwn ac addasu'r cynllun prosiect fel bo angen);
- Cynnal ymgynghoriad;
- Dadansoddi canfyddiadau'r ymgynghoriad.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Cyhoeddi canllawiau ac unrhyw newidiadau a argymhellir i'r prosesau.

3.2 Monitro unrhyw achos o weithredu'n groes i Adran 32, Deddf Osteopathiaid (Amddiffyn teitl)

Cymryd camau gweithredol i sicrhau bod unigolion sydd heb gofrestru ac sy'n ymarfer yn anghyfreithlon yn groes i Adran 32 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 yn cael eu herlyn. Byddai hyn yn cynnwys monitro unigolion sy'n dewis peidio ail-gofrestru, neu sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Mynd ati i fonitro gwefannau unigolion sydd newydd adael y Gofrestr;
- Anfon llythyr 'ymatal' at y rheiny sydd â gwefannau sy'n defnyddio'r teitl 'osteopath' a amddiffynnir yn anghyfreithlon;
- Erlyn y rhai hynny sy'n anwybyddu'r llythyrau 'ymatal';
- Cyhoeddi collfarnau;
- Rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad y monitro.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Parhau i fonitro'n weithredol a chymryd camau dilynol;
- Rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad y monitro.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Parhau i fonitro'n weithredol a chymryd camau dilynol;
- Rhoi gwybod i'r Cyngor am ganlyniad y monitro.

3.3 Canllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Sefydliadau Addysgol Osteopathig (OEIs)

Darparu gwybodaeth a chanllawiau i OEIs ar sut i gydymffurfio'n effeithiol â'u dyletswyddau cydraddoldeb dan gyfraith gwrth-wahaniaethu.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cynnal ymarfer ymgynghori gyda OEIs ar ba wybodaeth a chanllawiau sydd eu hangen;
- Paratoi canllawiau cyffredinol yn cynnwys manylion am adnoddau defnyddiol.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Monitro'r canllawiau a roddwyd ym Mlwyddyn 1 i sicrhau eu bod yn parhau'n gywir a diweddaru fel bo angen yng ngoleuni cyfraith achosion a deddfwriaeth berthnasol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Cynnal arolwg ymysg OEIs ar sut y mae'r canllawiau yn gweithredu wrth ymarfer a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

3.4 Datblygu polisi diogelwch cynhwysfawr

Datblygu polisi diogelwch Gwybodaeth yn unol ag ISO/IEC 27001 Technoleg gwybodaeth – Technegau diogelwch – Cod ymarfer i reoli diogelwch gwybodaeth.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Datblygu polisi diogelwch drafft i'w gymeradwyo;
- Datblygu cynllun gweithredu manwl sawl cam;
- Asesu anghenion hyfforddi, nodi darparwr hyfforddiant addas a threfnu hyfforddiant i staff a'r rhai anweithredol fel bo angen;
- Cyhoeddi polisi diogelwch a gytunwyd.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Monitro dull gweithredu'r polisi diogelwch a datblygu canllawiau ategol lle bo angen;
- Diweddaru'r polisi yn ôl yr angen i gymryd deddfwriaeth newydd a gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ystyriaeth.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Monitro dull gweithredu'r polisi diogelwch a datblygu canllawiau ategol lle bo angen;
- Diweddaru polisi yn ôl yr angen i gymryd deddfwriaeth newydd a gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ystyriaeth;
- Trefnu hyfforddiant wedi'i ddiweddaru lle bo angen.

4 Ymgysylltu'n effeithiol gydag osteopathiaid, cleifion a'r cyhoedd yn ehangach, addysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod sail i'n polisïau a'n prosesau

4.1 Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI)

Datblygu strategaeth PPI gynhwysfawr, gan adeiladu ar y gweithgareddau sydd eisoes wedi'u cyflawni yn y maes hwn ac ehangu'r detholiad o dechnegau cynnwys a ddefnyddir i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf oll.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Creu strategaeth i nodi meysydd lle mae cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn fwy helaeth yn arbennig o bwysig i reoleiddio osteopathi'n effeithiol, gan adeiladu ar weithgarwch cyfredol PPI (e.e. ymchwil i ddisgwyliadau cleifion, ymdrin â chwynion a pha mor hawdd yw'r Gofrestr i'w defnyddio);
- Drafftio polisi sy'n nodi opsiynau PPI;
- Datblygu cynllun i'w weithredu dros dair blynedd y cynllun corfforaethol;
- Gweithredu cynllun PPI ar gyfer blwyddyn 1.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Gweithredu cynllun PPI ar gyfer blwyddyn 2, gan gymryd adborth ar weithgarwch blwyddyn 1 i ystyriaeth.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Gweithredu cynllun PPI ar gyfer blwyddyn 3;
- Cynnal gwerthusiad o weithgarwch PPI ac addasu'r strategaeth fel bo angen.

4.2 Cwmpas Ymarfer

Amlinellu strategaeth ar gyfer datblygu cwmpas ymarfer ar gyfer osteopathi.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cyhoeddi adroddiad ar ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol ar gwmpas ymarfer;
- Cynnal gwaith ymchwil i bennu patrymau ymarfer osteopathig.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Datblygu cynllun ar gyfer camau nesaf ar gwmpas ymarfer yng ngoleuni gwaith arall, yn cynnwys datblygu cynnwys cwricwlwm craidd, datblygu dogfen cwmpas ymarfer Ewropeaidd a chynigion gan randdeiliaid eraill megis y BOA;
- Gwerthuso canlyniadau arolwg ymarfer i bennu cwmpas yr ymarfer a wneir gan osteopathiaid. Bydd hyn yn nodi'r meysydd o hyfforddiant ôl-radd neu uwch lle gall safonau achredu pellach fod yn angenrheidiol.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Drafftio dogfen cwmpas ymarfer yn seiliedig ar waith y flwyddyn flaenorol, ac ymgynghori â'r proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol eraill.

4.3 Ymgysylltu â'r proffesiwn ar faterion rheoleiddio allweddol

Datblygu cynllun cynhwysfawr i ymgysylltu'n effeithiol â'r proffesiwn ar ddatblygiadau rheoleiddio sydd ag oblygiadau i ymarfer osteopathig. Canolbwyntio'n arbennig ar nodi ffyrdd o gyrraedd cyfran uwch o'r proffesiwn, er mwyn ymgysylltu â'r rhai hynny nad ydynt yn ymwybodol o ddatblygiadau rheoleiddio ar hyn o bryd.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Ymgynghori â chofrestrwyr a rhanddeiliaid allanol ar yr adolygiad CPD;
- Datblygu strategaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â datblygu cynllun ail-ddilysu a pharatoadau ar gyfer cynllun peilot cenedlaethol;
- Cyhoeddi a chyfathrebu ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol ar ymgynghoriad cwmpas ymarfer a chyfathrebu cynlluniau datblygu pellach;
- Cyfathrebu sail resymegol ar gyfer gwaith pellach ar ddrafft Safonau Ymarfer Osteopathig i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer diwygiedig;
- Ymgynghori â'r proffesiwn ar ddrafft Cod Ymarfer diwygiedig.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Cyfathrebu canlyniadau ymgynghoriad adolygu CPD i randdeiliaid;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i hwyluso cynllun peilot ail-ddilysu a datblygiadau cysylltiedig;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i hwyluso datblygu cwmpas ymarfer;
- Cyhoeddi a lledaenu Safonau Ymarfer Osteopathig a gytunwyd;
- Ymgymryd â rhaglen gyfathrebu i sefydlu ymwybyddiaeth o safonau newydd yn y proffesiwn ac ymysg rhanddeiliaid eraill;
- Cyhoeddi a lledaenu Cod Ymarfer diwygiedig a chanllawiau ategol;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i sefydlu ymwybyddiaeth o'r cod newydd, a chanllawiau ategol, yn y proffesiwn ac ymysg rhanddeiliaid eraill.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Cyfathrebu a gweithredu newidiadau i'r CPD ochr yn ochr â gofynion ail-ddilysu;
- Gweithredu cynllun cyfathrebu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno ail-ddilysu;
- Datblygu cynllun ar gyfer cyfres genedlaethol o weithdai i baratoi'r proffesiwn ar gyfer ail-ddilysu;
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i hwyluso datblygiad cwmpas ymarfer.

5 Cadw golwg ar ein gweithgarwch a'n defnydd o adnoddau, gan wneud newidiadau lle bo angen i sicrhau'r perfformiad gorau posibl a hynny mor gost effeithlon â phosibl

5.1 Datblygu gwasanaethau ar-lein

Creu cyfleuster ar-lein wedi'i integreiddio'n llwyr i alluogi cofrestrwyr i weinyddu eu manylion personol eu hunain, i ymdrin â chofrestru, CPD ac ail-ddilysu, yn gyfan gwbl ar-lein.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Creu cynllun ar gyfer cyfleuster ar-lein;
- Paratoi cynllun busnes â chostau i'w gymeradwyo;
- Cynnal tendr am wasanaethau gan gyflenwr trydydd parti;
- Llunio cynllun ar gyfer gweithredu fesul cam a dechrau gweithredu.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Parhau i'w weithredu a monitro faint sy'n gwneud defnydd ohono.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Parhau i'w weithredu a monitro faint sy'n gwneud defnydd ohono.

5.2 Gwella gweithgarwch ar-lein ac e-gyfathrebu

Cynyddu a gwella gwasanaethau ar-lein sydd ar gael i randdeiliaid, yn cynnwys gwefannau cyhoeddus a phobl sydd wedi'u cofrestru, e-fwletinau, arolygon ar-lein, cofrestru ar-lein ac ati.

Ebrill 2010 - Mawrth 2011

- Cwblhau gwaith ailddatblygu sylweddol ar wefan cofrestrwyr (yr **o** sôn);
- Datblygu cynllun cyfathrebu i annog cofrestrwyr i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.

Ebrill 2011 - Mawrth 2012

- Datblygu cynllun cyfathrebu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cofrestru, talu a gwasanaethau eraill ar-lein, e.e. cyfleuster i gyflwyno asesiadau ail-ddilysu ar-lein;
- Archwilio'r potensial i gyhoeddi rhagor o e-fwletinau ar gyfer y proffesiwn ac ar gyfer grwpiau cleifion a'r cyhoedd.

Ebrill 2012 - Mawrth 2013

- Gweithredu cynllun cyfathrebu i gefnogi cyflwyno cofrestru a gwasanaethau eraill ar-lein;
- Monitro'r defnydd o wasanaethau ar-lein.

General Osteopathic Council

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

ffôn: 020 7357 6655
www.osteopathy.org.uk